

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 8 Medi 2020

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Cadeirydd)  
Cynghorydd Glyn Haynes (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, K P Hughes, T LI Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, Richard Owain Jones, G O Jones, R LI Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, R G Parry OBE FRAGS, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Robin Williams.

**WRTH LAW:** Prif Weithredwr,  
Dirprwy Brif Weithredwr,  
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro,  
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,  
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros dro,  
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,  
Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd,  
Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol a Chontractau) (MY),  
Rheolwr Sgriwtini (AD),  
Swyddog Cyfathrebiadau (GJ),  
Swyddog Pwyllgorau (MEH).

**HEFYD YN  
BRESENNOL:** Neb

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Lewis Davies

### 1. CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i'r Cyngor ar gyfer ei dderbyn.

**PENDERFYNWYD** nad oes angen cynnal etholiad i ddewis Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer y Cyngor ac y bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd presennol y Cyngor yn parhau yn eu rolau am gyfnod estynedig tan y Cyfarfod Blynyddol yn 2021.

## **2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ar ôl datgan diddordeb personol yn Eitem 1, penderfynodd y Cadeirydd a'r is-gadeirydd beidio â chymryd rhan yn y drafodaeth na'r bleidlais.

## **3. CYHOEDDIADAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw gyhoeddiadau.

## **4. RHAGLEN CYFARFODYDD Y CYNGOR SIR AR GYFER 2020/21**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r rhaglen ganlynol o gyfarfodydd ar gyfer y Cyngor Sir ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod:-

- 27 Hydref, 2020 (Arbennig) - 10.30 a.m.
- 8 Rhagfyr, 2020 - 2.00 p.m.
- 23 Chwefror, 2021 - 2.00 p.m.
- Mai (Cyfarfod Blynyddol) - dyddiad i'w gadarnhau

## **5. DIRPRWYAETH GAN YR ARWEINYDD/AELODAETH Y PWYLLGOR GWAITH**

Yn unol â pharagraff 4.1.1.2 o'r Cyfansoddiad, dywedodd yr Arweinydd nad oedd unrhyw newidiadau i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith na chynrychiolwyr o ran yr Aelodau Portffolio.

## **6. PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL RHWNG MIS MAI2019 A GORFFENNAF 2020**

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr er mwyn i'r Cyngor allu ei dderbyn.

**PENDERFYNWYD** fod y Cyngor Sir yn nodi'r penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith, drwy ffyrdd amrywiol, yn unol â'r cynllun dirprwyo sydd wedi'i gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor Sir.

## **7. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AM 2020/21**

Yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 o'r Cyfansoddiad **PENDERFYNWYD** y dylid ethol y Cynghorydd Robert LI Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd.

## **8. CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r rhan honno o'r Cynllun Dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn nodi mai mater i'r Cyngor ydyw i'w gytuno (fel y nodir ym Mharagraff 3.2 o'r Cyfansoddiad).

## 9. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Cyflwynwyd ar gyfer ei ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar Gydbwysedd Gwleidyddol.

### **PENDERFYNWYD :-**

- **Cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddau a ddyrennir i bob un o'r Grwpiau yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;**
- **Bod Arweinyddion Grwpiau yn hysbysu Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd cyn gynted â phosibl os oes unrhyw newidiadau i Aelodaeth Grwpiau ar Bwyllgorau.**

## 10. CYRFF ALLANOL

Cafodd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â phenodiad i Gyrff allanol ei gyflwyno ar gyfer ei ystyried, yn amodol ar welliant bod y Cynghorwyr Richard Griffiths a Dylan Rees yn aelodau o Banel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a bod y Cynghorydd Eric Jones yn aelod o Bwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD cytuno ar a chadarnhau'r penodiadau fel y nodwyd yn yr atodiad i'r adroddiad.**

## 11. CADARNHAU PWYLLGORAU

Cadarnhaodd y Cadeirydd ailbenodi'r strwythur Pwyllgorau canlynol fel y cyfeirir ato yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol:-

- Panel Tân a Graddfeydd (Is-bwyllgor o'r Cyngor)
- Panel Penodi i'r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)
- Is-bwyllgor Indemniadau

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30 o'r gloch

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS  
CADEIRYDD**